MARWNAD
O
GOFFADWRIAETH
AM
FARWOLAETH
Mr. *DAFYDD JONES*

O'r *Hafod*, gynt o *Gayo*, Cyfieithydd Salmau a Hymnau Dr. Watts.

Yr hwn a ymadawodd o'r Byd hwn y 30 o Awst, yn y Flwyddyn o Oedran ein Harglwydd, 1777.

Coffadwriaeth y Cyfiawn fydd fendigedig.

Gan I. T. Gweinidog yr Efengyl.

1 BETH yw'r newydd glywes heddy,
Ddaeth i'm clustiau wnaeth i'm synnu;
Dacew etto un o'r brodyr
Wedi myn'd i ma's o'r frwydyr,
Wedi gorphen ar ei fiwrnai,
Maeddu'r byd ynghyd ag angau:
Angau du, yma fy'
Yn chwareu ei gleddau,
Ymhob man o bob cornele
Yn myn'd a'r prynedigion adre'.

2 O gwyn eu byd y meirw dedwydd,
Sy' wedi marw yn yr Arglwydd,
Oddiwrth eu llafur gorphwys wed'yn,
A'u gweithredoedd yn eu canlyn:
Llawer gwell yw dydd marwolaeth
Nag oedd dydd eu genedigaeth;

Heb neb enill Iesu i'w eiddo unig,
Rhyngddynt yn y byd gwelenig.

7 A oes rhyw 'florom fawr yn dyfod?
Dyddiau blin a rhyw drwm gafod,
Ar wlad ag eglwys yn ein dyddiau,
Neu lwyddiant yr efengyl oleu;
Pan mae Duw yn myn'd oddi yma,
A'i anwyl bobl am y cynta',
Frodyr ffri, d'wedwch chwi
P'un fy'n debycca'?
Cerydd ar yr eglwys yma,
Neu yntau cyffan o'r meluſs'?

8 'Rym ni'n gweled colled lawer,
Ar ol brodyr tawel tyner,
Diwyd donioł doeth a duwiol,
Blaenoriaid dewr ynghlith y bobol;
Piler yn yr eglwys iſod,
Ydoedd Dafydd Jones o'r Haſod;
Llu aeth i dre', gydâg e',
Gwag yw eu lle yma,
Arglwydd dere a chynhaua,
I lanw eu lle'n yr eglwys iſa'.

9 Rhwyſgwy'r gweddwon Tad ymddifaid,
Gelli ein helpu etto weiniaid,
Donio'n rhyfedd rhyw rai eraill,
Rhoddi arnynt hwy eu mantell;
Gantho ef mae pob tryſorau,
Ni chaiff bod ar y plant ddim eiſau;
Paul 'Polos mwy, eiddynt hwy,
A pheth ſydd fwy'r Iesu?
A phob doniau nes ei magu,
Ag i'r bywyd eu haeddfedu.

10 Er eu bod rai prydiau'n griddfan,
A gelynion yn eu pwnian,
Ambell ddydd cymmylog tywyll,
Ac yn ofni myn'd yn gandryll,
Ynghanol tywyllwch fe gwyd haulwen,
Daw Duw i ymwel'd a'i blant drachefen;
Terfyſgwyr hy, yno ſy'
Yn plygu'r gwarrau,

Ag yn ffaelu codi ei pennau,
Pan mae awdurdod Duw yn chwarau.

11 Peidiwch frodyr a galaru,
Mae gan Ddafydd well cwmpeini;
Er i'ch wel'd yn chwith fod hebddo,
Eich colled chwi fy'n ennill iddo;
Ni ddaw attoch mwy ond hynny,
Mae am eich gwel'd chwi'n dod i fynu,
I gael rhan, yn y man,
O'i ddanteithion,
Gydâg ef ar fynnydd Seion,
A gwisgo'r anllygredig goron.

12 Gadawodd ar ei ol ddifyrwch,
I'r pererinion hewn anialwch;
Psalmau a Hymnau Watts drachefen,
Yn y iaith y gallent ddarllen;
Bydd coffadwriaeth am ei enw,
Tra b'o'r môr a thrai a llanw;
Pererin gwiw, hardd yn byw,
'Mhlith pobl Dduw'n happus,
'Nawr mae wedi myn'd i orphwys,
Fry i'r orfoleddus eglwys.

13 Cyfaill i'r gwir bererinion,
O bob enw oedd o'i galon;
O yspryd rhydd ag nid fel llawer,
Yn llawn o barti-zêl a chleber;
'R hyn fy'n ymdanu dros y gwledydd
Bron a bwytta bywyd crefydd;
Caru wnai, dduwiol rai,
Er bai a gwendidau,
Ag yn ebrwydd cydymdeimlai,
A rhai gweinion ei grasysau.

14 'Roedd e'n erbyn yr Arminiaeth,
Carai iachus wir Athrawiaeth,
Antinomaeth crefydd benrydd,
Hefyd hon ni hoffai Ddafydd,
Pregethu Crist wedi ei groeshoelio,
Oedd yn felus gantho wrando,
Dyma ei wledd tu yma i'r bedd
Profi hedd yntho,
Gwel'd trwy ffydd yr anwyl Shilo,
Ar Galfaria'n marw drosto.

15 Yn

15 Yn awr ei ffydd a drodd yn olwg,
Nid trwy ddrych, ond gwel'd mae'n amlwg,
Fawr hawddgarwch Perſon Ieſu,
Fel y mae yngwlad goleuni,
Cafodd weled rhyfeddodau,
Wedi myn'd tu draw i angau,
At y llu, ddiſglair fry,
Yn nhŷ ei dad nefol,
Yn y gogoniant mawr tragywyddol,
Sydd gan Dduw i'w anwyl bobl.

16 Prophwydi, Patriarchiaid lucedd,
Gwir dduwiolion o bob oeſoedd,
Watts, Hervey, Harris, Whitfield hynod,
Cafodd yno eu cyfarfod:
Nid oes yno ſôn am enwau,
Ond enw Ieſu a'i aelodau,
Brodyr cu, yno ſy'
Yn cywir garu,
Gydâ'r Oen byth yn gartrefu,
Canu iddo glod heb dewi.

17 Pan y gwelais ef ddiwetha',
Yn y maith anialwch yma,
Dywedodd wrthyf un peth hynod,
Bod ei daith ef bron a darfod,
Pan daeth Hymnau Watts o ddeutu,
Gantho wedi eu cyfieithu,
'Nol hyn ſe aeth, yn ddi aeth,
I gwrdd a brath angau,
Yn awr mae'n canu Pſalmau a Hymnau,
Mewn gogoniant gydâ'r Seintiau.

18 Fe orphenodd yn gyſſurus,
Ei bererindod mewn modd happus,
Gan dd'weud 'nawr Arglwydd y gollyngi,
Mewn tangneddyf dy was, Ieſu
Fy llygaid welodd mewn modd helaeth
Dy anfeidrol iechydwriaeth;
O bydd di, Ieſu cu,
Yn fy ymyl yma,
'Rwi' 'nawr yn gorphen ar fy 'ngyrfa,
Yn llawen deuaf attat yna.

19 Ei wraig a'i anwyl blant yn ddiau,
Cawſoch gyſled gwel'd ei eifiau,

Ei berthynaſau ag amryw eraill,
Synnodd glywed colli cyfaill;
O dewch o'r bron ei holl garenydd,
I rodio'r llwybrau gerddodd Dafydd;
Ei ferched cu, ceiſiwch chwi
Ieſu'n briod,
Fel b'o'n llawen i'ch cyfarfod,
Ag ef yn y dydd ſy'n dyfod.

20 Ar ol y duwiol hardd bereriin,
Doed y wraig a'r plant yw ganlyn,
Fel gallo dd'wedyd ar ddydd cyfri,
Dyma'r wraig a'r plant roiſt i mi,
Wedi d'od i'r lan yn wrol,
O'r anialwch mawr daearol;
Gwel'd eich lle, gydâg e'
Mewn nefol le dedwydd,
O fewn tre' *Caerſalem* newydd,
Heb ymadael yn dragywydd.

21 Un mil tri ſaith i lawr yn gywrein,
Oedd oedran Criſt ein pen a'n perchen,
Degfed dydd ar hugain hefyd,
O fis Awſt y ca'dd e' ei ſymmud,
Chwech a thrugain mlwydd oedd yntau
Pan yr hunodd gydâ ei dadau;
I lwch y llawr, rho'wd e' i lawr,
Mewn galar mawr unwedd,
Ynghrug y Bar y rho'wd e' i orwedd,
Nes delo'r adgyfodiad rhyfedd.

22 Betty Prichard hardd bererin,
Aeth i ganu 'mlith y werin,
Cânodd lawer yn ei dyddiau,
Do ar dagrau yn ei gryddiau,
Blodeu ieuengctyd yn proffeſu,
Yn llan yr y—— rhôs oedd Betty,
Aeddfedodd hi, fyn'd at y llu,
Fry'n gorfoleddu.
Miloedd beunydd yn ei chwmpni,
Yn peraidd ganu clod i'r Ieſu.

23 Caleb hefyd o'r Gwernogo,
'Nawr does neb yn bwrw arno;
Darfu gofid byd a'i bethau,
Blinder e' oddiwrth bob perthynaſau,

Blaenu

Blaenu wnaeth i fyd yſbrydoedd,
Gwelodd ryſeddodau ſiloedd,
Diangodd e', aeth i dre',
Pwy iddo fe neſa,
Welir yn y parthau yma,
Wedi gorphen ar ei yrfa.

24 Gruddfan wyf ag [illegible]ddigeddu,
Weled cewri yn [illegible]angu,
Am gadael eiddil yn fy 'nhrafel,
Dan fy meichiau yn y rhyfel;
Oen Duw daliodd hwy trwy angau,
Ymhob caledi cynnal finnau;
Trwy'r afon ddu, bydd i mi
Yn dawel noddfa,
Dwg fi at y llu ſy'n gwledda,
I drag'wyddoldeb ar y Manna.

25 Ffarwel fyd ſy'n llawn o ddrygau,
Ffwrn fy Nuw i buro'r Seintiau,
Mynych clywai'r gwan eu meddwl,
Yma bron a gwadu'r cwbwl,
Temptaſiynau byd a ſatan,
Angrediniaeth calon aflan,
Sy' fel cawr, yma 'nawr,
Yn curo i lawr gleiſion,
Bryſia fore gad y cyſion,
Yr holl lyffaint yn yr afon.

HYMN.

1 GWYN fyd y meirw Ynghriſt er's tro,
Sydd wedi ymado a myn'd a'r ſio,
Gorphen'ſant ar eu llafur waith,
Maent yn holl-iach ar ben ei taith.

2 Maent wedi myn'd o'r byd o bla,
Eu canlyn ei gweithredoedd gwna;
Ni welir mwyach arnynt glwy',
Ffarwel ei holl ofidiau mwy.

3 Eneidiau rhai'n ſy' fry ar da'n,
Yn moli'r Oen mewn nefol gan;
Eu cyrph [illegible]'wd mewn daear lawr,
Hyd ddy[illegible]

4 Oddiwrth eu llafur gorphwys maent
Yngwmpni'r Oen, mawr yw eu braint,
Yn llawn o gariad Duw a'i hedd,
Tu draw i angau trist a'r bedd.

5 Hwy gawsant wel'd, o gwyn eu byd,
Rai brodyr o bob cwr i'r byd,
Mewn undeb fry ar ben eu taith,
O bob rhyw bobloedd, llwyth a iaith.

6 Wel yno mae gorphwysfa lawn,
Gofidiau'n amal yma cawn,
Rhai ar ein hafwy', rhai a'r dde',
Yn peri blinder tan y ne'.

7 Mae plant y byd ag uffern lu,
Yn ein hamgylchu o bob tu,
Tu fewn, tu faes, mae torf yn awr
Yn ceisio cael ein pennau i lawr.

8 Pregylion ar y dw'r a'r tir,
Oddiwrth yr eglwys diodde' cur;
Ynghyd ag amryw frodyr gau,
Yn ceisio'n fynych ein gwanhau.

9 Oni bai fod Iesu ar ein rhan,
Fe'n digalonnid ymhob man;
Tra byddo'r Oen ar orsedd ne',
Cynhelir gweiniaid ymhob lle.

10 O waredigion gwyn eich byd,
Sy'n gorphwys yn y nefol fyd,
'Dyw'r gwynt sy'n chwythu arnom ni,
Yn cwrdd a neb o honoch chwi.

11 Wel cenwch yna yn nhŷ eich Tad,
Mae'n hwyneb ninnau tua'r wlad,
Dan wylo a chanu down i'r lan,
I wledda gydâ chwi'n y man.

12 Lle sychir ein holl ddagrau'n lân,
A'n galar yn drag'wyddol gân;
Ffarwel ryfela a gelynion mwy,
Oed canu e'n ei farwol glwy'.

FINIS.

Margaret Davis

Daniel Evans his Book 1789